# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-18-08 (p2): 25 Medi 2008**

## Deiseb P-03-63, Gwahardd Bagiau Plastig: Ystyried yr opsiynau.

### Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd Aelodau i ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddo o ran ystyried deiseb P-03-63 i wahardd bagiau plastig yng Nghymru ymhellach.

### Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2008, adroddodd y Cadeirydd fod deiseb P-03-63 wedi cael ei chyfeirio at y Pwyllgor Cynaliadwyedd gan y Pwyllgor Deisebau ar 6 Rhagfyr 2007.

3. Yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill, cytunodd y Pwyllgor i glywed mwy o dystiolaeth cyn gwneud ei benderfyniad terfynol ar y ddeiseb.

4. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan amryw o gyrff ar y materion o ran cyflwyno gwaharddiad ac ardoll ar fagiau plastig. Bu iddo hefyd ymweld â Dulyn i gasglu tystiolaeth ar effeithiau'r ardoll ar fagiau plastig.

### Opsiynau

5. Mae sawl opsiwn ar gael i'r Pwyllgor o ran y ddeiseb ac amlinellir y rhain isod:

Cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i seilio ar y dystiolaeth a glywyd hyd yn hyn;

Gwrando ar fwy o dystiolaeth a chyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru;

Cyflwyno argymhellion i Lywodraeth y DU, sy'n ystyried y posibilrwydd o gyflwyno ardoll ar fagiau plastig, a fyddai'n cael ei gyflwyno drwy gymalau yn y Mesur Newid yn yr Hinsawdd;

Yn ddibynnol ar ganlyniad yr ystyriaethau o'r dystiolaeth a glywyd hyd yn hyn, gallai'r Pwyllgor weithredu drwy gynnig Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (os na chymeradwyir y Gorchymyn ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff) neu Fesur Cynulliad (os cymeradwyir y Gorchymyn);

6. Ym mhob achos, argymhellir y dylid cau'r ddeiseb hon oherwydd mae ystyriaethau'r Pwyllgor wedi mynd y tu hwnt i sgôp gwreiddiol y ddeiseb, sef gwahardd bagiau plastig.

### Argymhellion

7. Gwahoddir Aelodau i ystyried yr opsiynau a chytuno ynghylch pa gamau pellach yr hoffent eu cymryd.

Gwasanaeth y Pwyllgor
Medi 2008